# Astudiaeth Achos Academi Cyflogadwyedd Abertawe (ACA)

Prifysgol **Abertawe**
**Swansea** University

Academi Cyflogadwyedd Abertawe
Swansea Employability Academy

## *Chidalu Oluoma*

**Cwrs: MSc mewn Seicoleg Glinigol ac Iechyd Meddwl**

**Blwyddyn Graddio: 2022**



Tra'n astudio ar gyfer ei MSc mewn Seicoleg Glinigol ac Iechyd Meddwl, gwnaeth Chidalu, sy'n wreiddiol o Affrica Is-Sahara, ymdrech ymwybodol i wella ei sgiliau cyflogadwyedd drwy ymwneud ag ystod o wasanaethau cymorth ACA;  gan gynnwys cwblhau'r Cwrs Datblygu Gyrfa a mynychu apwyntiadau un-i-un gydag Ymgynghorydd Gyrfaoedd.

Cafodd y gefnogaeth a oedd ar gael gan ACA effaith uniongyrchol ar nifer y ceisiadau am swyddi llwyddiannus a chyfweliadau a gafodd Chidalu, cyn mynd ymlaen i ddechrau ei gyrfa fel Ymgynghorydd Iechyd Meddwl a Lles. Fel myfyriwr rhyngwladol, roedd Chidalu yn awyddus i gael adborth ar ei CV a'i cheisiadau, gan deilwra'r rhain i farchnad swyddi'r DU.

O safbwynt y gefnogaeth sydd ar gael gan ACA, dywedodd Chidalu:

> "Cefais fy ngwahodd i lawer mwy o gyfweliadau yn dilyn ein cyfarfod gan i mi roi ar waith gyngor ar gwblhau ceisiadau am swyddi a gefais gan Ymgynghorydd Gyrfaoedd a'r cwrs datblygu gyrfa.
>
> Diolch yn fawr am eich holl gyngor a'ch arweiniad, roedd yn help mawr i mi baratoi'n well ar gyfer cyfweliadau a rhoi hwb i'm hunanhyder."

**I gael rhagor o wybodaeth am y cymorth gyrfaoedd a chyflogadwyedd sydd ar gael i fyfyrwyr a graddedigion Prifysgol Abertawe, ewch i'n tudalen we:**
**myuni.swansea.ac.uk/cy/gyrfaoedd**